

## Gwybodaeth i Fusnesau

Rydym yn falch o gyhoeddi prosiect newydd sbon i helpu i'ch cefnogi chi fel busnesau dros y tymor Nadolig unigryw hwn ac ymlaen i'r Flwyddyn Newydd.

### Beth yw 'Siop Aber - Caru Aber'?

Mae 'Siop Aber - Caru Aber' yn gynllun cardiau teyrngarwch siopa'n lleol lle rydyn ni'n gwobrwyo cwsmeriaid am gefnogi busnesau Aberystwyth. Bydd cwsmeriaid yn casglu sticeri gan fusnesau pan fyddant yn gwario lleiafswm o £10. Pan fyddant yn casglu 5 sticer, byddant yn derbyn Taleb Rhodd o £20 i'w wario mewn unrhyw fusnes sy'n cymryd rhan. I ddechrau, rydym wedi sicrhau bod 1,000 o dalebau ar gael, gan olygu y byddwn yn ail-fuddsoddi £20,000 yn ôl i'n heconomi leol - bydd hyn yn cael ei fonitro a'i adolygu. Bydd y prosiect yn rhedeg rhwng **16 Tachwedd – 31 Ionawr**.

### Pwy all gymryd rhan?

Gall unrhyw dalwr trethi gymryd rhan. Rydym eisiau i gynifer o wahanol fusnesau gymryd rhan â phosibl gan y bydd hyn yn gwella'r cynnig i gwsmeriaid e.e. Manwerthu, Bwyd a Diod, Gwallt a Harddwch ac unrhyw wasanaethau perthnasol

### Faint mae'n ei gostio i chi?

Dim. Byddwn yn cynhyrchu'r cardiau teyrngarwch a'r talebau rhodd a byddwn yn ariannu'r talebau rhodd. Byddwn hefyd yn ariannu'r ymgyrch hysbysebu sy'n hyrwyddo'r cynllun.

### Sut mae'n gweithio?

- Rhowch wybod i ni eich bod chi eisiau cymryd rhan. Anfonwch enw eich busnes, cyfeiriad, gwefan, manylion cyfryngau cymdeithasol a delwedd o flaen eich siop at [matthew@advancingaberystwyth.co.uk](mailto:matthew@advancingaberystwyth.co.uk)
- Yna cewch eich ychwanegu at y wefan a'ch cynnwys yn ein hymgyrch cyfryngau cymdeithasol
- Byddwn yn rhoi sticeri unigryw i chi a phoster i'w arddangos yn eich ffenestr
- Bydd y cardiau teyrngarwch ar gael i gwsmeriaid eu casglu o Jewellery House (Ffordd y Môr) a Tan Shop (Y Porth Bach)
- Mae angen i gwsmeriaid wario o leiaf £10 yn eich busnesau. Yna byddwch chi'n rhoi sticer iddyn nhw ac yn llofnodi cefn eu cerdyn
- Mewn un trafodyn dim ond un sticer y gallwch ei roi i bob cwsmer (waeth faint y mae'n ei wario). Hefyd, dim ond unwaith y gellir cynnwys eich sticer ar yr un cerdyn. Mae hyn er mwyn annog pobl i wario mewn sawl busnes
- Pan fydd gan gwsmer 5 sticer, byddant yn dychwelyd y cerdyn i Jewellery House neu Tan Shop (Y Porth Bach) ac yn derbyn Taleb Anrheg gwerth £20. Cymerir manylion cwsmeriaid, a chofnodir rhif y daleb rhodd wrth ymyl eu manylion

- Dim ond yn y busnesau sy'n cymryd rhan y gellir gwario'r daleb arheg. Dim ond unwaith y gellir defnyddio'r daleb, mewn un trafodyn heb roi unrhyw newid
- Pan fydd cwsmer yn defnyddio taleb rhodd yn eich busnes, bydd angen i chi gadw'r daleb honno a chysylltu â ni gyda rhif y daleb. Yna byddwn yn talu £20 i chi ac yn marcio'r daleb arheg honno fel un sydd wedi cael ei gwario yn eich busnes
- Rhaid gwario pob taleb rhodd erbyn **31 Ionawr, 2021** - mae hyn oherwydd ein bod eisiau i'r prosiect gael effaith ar unwaith h.y. eich helpu wrth i chi ailagor ar ôl y clo diweddaraf ac annog gwariant dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd heriol.

## Y Cerdyn Teyrngarwch

### Siop Aber Caru Aber

• Cefnogi busnesau Aberystwyth •      • Supporting Aberystwyth's businesses •

Mynnwch Sticer pan fyddwch chi'n gwario o leiaf £10 gyda busnes sy'n cymryd rhan. Rhof fyddech yn cael 5 sticer gan 5 busnes gwahanol byddwch yn derbyn  
**£20 Taleb Anrheg Aber**

Get a Sticker when you spend a minimum of £10 in a participating business. When you collect 5 stickers from 5 different businesses you will receive a  
**£20 Aber Gift Voucher**

I gael rhestr o'r busnesau sy'n cymryd rhan, gwnebwch â:  
For a list of participating businesses visit:  
[www.advancingaberystwyth.co.uk](http://www.advancingaberystwyth.co.uk)  
Neu gweler Siop Aber Caru Aber yn ffenest siop  
Or see Siop Aber Caru Aber in shop window

ADVANCING  
**ABERYSTWYTH**  
Aberystwyth

Ble cawsoch chi eich sticer?      Where did you receive your stickers?

1 Enw Busnes / Business Name: _____	Llofnod / Signature: _____
2 Enw Busnes / Business Name: _____	Llofnod / Signature: _____
3 Enw Busnes / Business Name: _____	Llofnod / Signature: _____
4 Enw Busnes / Business Name: _____	Llofnod / Signature: _____
5 Enw Busnes / Business Name: _____	Llofnod / Signature: _____

Eich Enw / Your Name: \_\_\_\_\_      Rhif Taleb Arian / Gift Voucher No: \_\_\_\_\_

Ewch â Cherdyn Iawn i Jewellery House (Ffordd y Môr) neu Ton Shop (Y FORTH BOCH) i derbyn eich Taleb Arian £20 y gellir ei gwario yn unrhyw un o'r busnesau sy'n cymryd rhan. Take completed card to Jewellery House (Terrace Road) or Ton Shop (Eastgate) to receive your £20 Gift Voucher, which can be spent in any of the participating businesses.

\*Rhaid gwario'r Daleb Arian mewn un trafodyn cyn Ionawr 31, 2021  
\*Gift Voucher must be spent by January 31st, 2021 and in a single transaction

ADVANCING  
**ABERYSTWYTH**  
Aberystwyth

## Y Daleb Rhodd

# Siop Aber Caru Aber

• Cefnogi busnesau Aberystwyth •      • Supporting Aberystwyth's businesses •

## £20 Taleb Arian Aber

Rhif Taleb

Gellir ei gwario mewn unrhyw fusnes sy'n cymryd rhan. Am restr lawn ewch i  
[www.advancingaberystwyth.co.uk](http://www.advancingaberystwyth.co.uk)  
Neu gweler Siop Aber Caru Aber yn ffenest siop

\*Rhaid gwario'r Daleb Arian erbyn Ionawr 31 2021 ac mewn un trafodyn  
\*Ni roddir unrhyw newid os na chaiff y swm llawn ei wario

ADVANCING  
**ABERYSTWYTH**  
Aberystwyth

# Siop Aber Caru Aber

• Cefnogi busnesau Aberystwyth •      • Supporting Aberystwyth's businesses •

## £20 Aber Gift Voucher

Voucher No.

Can be spent at any participating business. For a full list visit  
[www.advancingaberystwyth.co.uk](http://www.advancingaberystwyth.co.uk)  
Or see Siop Aber Caru Aber in shop window

\*Gift Voucher must be spent by January 31st 2021 and in a single transaction  
\*No change will be given if the full amount is not spent

ADVANCING  
**ABERYSTWYTH**  
Aberystwyth

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn [www.advancingaberystwyth.co.uk](http://www.advancingaberystwyth.co.uk)